



Mae Mentro wedi'i lunio i baru ffermwyr a thirfeddianwyr sy'n barod i gamu'n ôl o'r diwydiant gyda newydd ddyfodiaid sy'n chwilio am gyfle i gychwyn ffermio yn annibynnol. Mae'n rhoi arweiniad i bobl ar y ddwy ochr trwy'r camau allweddol sydd angen eu cymryd i ganfod partner busnes posib. Mae pecyn integredig sy'n cynnwys hyfforddiant, mentora, cyngor arbenigol a chefnogaeth busnes yn darparu'r wybodaeth a'r hyder angenrheidiol i gynorthwyo'r rhai sy'n cymryd rhan i gyflawni eu hamcanion.

Gallai'r camau allweddol ar y **daith Mentro** gynnwys y canlynol...



Canran o Geiswyr a Darparwyr (heb gynnwys y rheiny sydd wedi canfon partner)



■ Darparwyr  
■ Ceiswyr

Statws




■ Casglu Gwybodaeth ■ Wedi Cyflwyno Proffil ■ Wedi Canfod Partner  
■ Wedi Sefydlu Menter ar y Cyd

**617**  
DATGANIAD DIDDORDEB  
WEDI'U CYFLWYNO ERS  
DECHRAU'R


**245**  
O GYFRANOGWYR  
GWEITHREDOL



Sector Presennol y Darparwyr



Sector Dymunol y Ceiswyr




■ Biff ■ Defaid/Geifr/Alpacas ■ Llaeth ■ Magu lloi/heffrod  
■ Moch ■ Dofednod ■ Garddwriaeth ■ Tir â'r ■ Coedwigaeth

**48,874**  
ERW  
O DIRR WEDI  
COFRESTRU



- \* Mae cyfranogwyr gweithredol yn cyfeirio at y rheiny sydd wedi ymuno'n llawn â'r rhaglen trwy gwblhau proffil Mentro neu'n derbyn cyngor cynllunio busnes i sefydlu menter ar y cyd ar hyn o bryd.
- \* Mae'r erwau o dir sydd wedi cofrestru yn cynnwys cyfeirio at dir yr holl Ddarparwyr sydd wedi ymuno â'r rhaglen Mentro, yn cynnwys tir sy'n cael ei hysbysebu, tir sydd â Cheisiwr posib wedi neilltuo iddo, tir sy'n rhan o fenter ar y cyd wedi cwblhau a thir y rheiny sydd yng nghamau cyntaf y broses.
- \* Mae Darparwyr sy'n cynnig cyfle yn cyfeirio at dirfeddianwyr sy'n hysbysebu eu cyfle yn gyhoeddus ar hyn o bryd.
- \* Mae'r rheiny sydd wedi canfod partner yn cynnwys unigolion sy'n datblygu menter ar y cyd newydd gyda phartner busnes posib yn ogystal â'r rheiny sydd wedi cwblhau'r broses ac wedi sefydlu menter ar y cyd newydd.




## Wythnos Mentro

Rhwng 21-25 Medi 2020, cynhaliwyd cyfres o weithgareddau ar-lein i dargedu rhagor o Ddarparwyr a Cheiswyr i ymuno â'r rhaglen. Roedd y gweithgareddau ar-lein yn cynnwys poDlediad, gweminarau, hysbyseb teleu ac astudiaethau achos a gyhoeddwyd ar-lein ac ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

### Gweminarau

#### Bachwch y cyfle i ffermio

Yn ystod y weminar hon, cafodd Eimir Davies, Cyswllt Ffermio, gwmni panel o siaradwyr profiadol gan gynnwys y gyfreithwraig, Nerys Llewelyn Jones, a'r ffermwyr Emyr Owen, Peredur Owen a Rhys Williams sydd wedi ffurfio gwahanol fentrau ar y cyd. Bu'r panel yn rhannu eu profiadau eu hunain o ffurfio menter ar y cyd, a rhoddwyd cyngor, gwybodaeth ac arweiniad ynglŷn â'r Rhaglen Mentro.



Cliciwch yma i wyllo.




#### Mentro i'r cam nesaf

Bu'r cyfreithiwr, Rhodri Jones, yn trafod y gwahanol fathau o strwythurau mentrau ar y cyd y gellir eu sefydlu a sut mae'r partneriaethau hyn yn gweithio. Bu hefyd yn trafod y berthynas ddynamig yn gysylltiedig â thaliadau BPS, strategaeth ymadael a materion ymarferol eraill.

Bu Matthew Jackson, ffermwr sy'n rhedeg menter ar y cyd, yn trafod ei daith o gefndir y tu allan i fyd amaeth tuag at y diwydiant ffermio. Bu hefyd yn rhannu cyngor ac arweiniad ynglŷn â sut y dechreuodd ei daith drwy wahanol drefniadau ffermio ar y cyd cyn bod mewn sefyllfa erbyn hyn i roi cyfle i bobl eraill gamu i mewn i ffermio.

Cliciwch yma i wyllo.



#### Podlediad Clust i'r Ddaear

Yn gryfach gyda'n gilydd – Cymdogion yn symud o'r confensiynol i sefydlu menter laeth ar y cyd.



Yn y bennod hon, cawsom gyfle i gwrdd â dau ffermwr blaengar, sef Emyr Owen a Gwydion Jones sydd wedi penderfynu ymuno i sefydlu buches sy'n lloia mewn bloc yn y gwanwyn ar y bryniau uwchben Llanrwst.

Cliciwch yma i wrando



 CYRHAEDDIAD: 3,221 YMGYSYLLTIAD: 39



#### Hysbyseb Teledu

Er mwyn annog mwy o Ddarparwyr i ymuno â'r Rhaglen Mentro, comisiynwyd hysbyseb teledu a ddarllwyd am nifer o wythnosau cyn ac ar ôl rhaglen 'Ffermio' ar S4C.

## Astudiaethau achos



Cyhoeddwyd pedair astudiaeth achos yn ystod Wythnos Mentro. Roedd dwy yn canolbwyntio ar fentrau ar y cyd sydd eisoes wedi cael eu ffurfio a dwy yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer ceiswyr posibl.

#### Dywed newydd-ddyfodiad i'r diwydiant godro, sydd wedi cael cyfle i ffermio, diolch i berchennog fferm blaengar, y gallai'r cyfle hwn fod yn gam tuag at brynu ei ddaliad ei hun un diwrnod.

Mae Arfon James yn godro 100 o fuchod Friesian Prydeinig ar ôl sicrhau Tenantiaeth Busnes Fferm (FBT) gyda David Brooke. Fel rhan o'r cytundeb manteisiodd ar gynllun busnes wedi'i ariannu'n llawn drwy raglen Mentro Cyswllt Ffermio. Daeth y ddau at ei gilydd pan oedd Arfon yn ennill ei fywoliaeth drwy odro ar dair fferm laeth tra bod David yn ystyried lleihau ei ymrwymadau ffermio ar fferm Tanycoed, fferm 160 erw, ger pentref Pentrecwrt yn Sir Gaerfyrddin.

Erbyn hyn, bron i flwyddyn yn ddiweddarach, mae'r cynllun yn cyflawni'r hyn yr oedd y ddwy ochr wedi gobeithio amdano. Ar ddiwedd pum mlynedd y Denantiaeth Busnes Fferm, efallai y bydd cyfle hyd yn oed i fynd â'u cytundeb i'r lefel nesaf, meddai – os yw Arfon yn hel digon o gyfalaf, efallai y caiff y cyfle i brynu'r fferm.

#### Rhaglen Mentro Cyswllt Ffermio yn llwyddo unwaith eto

Mae'r dyfodol yn edrych yn llewyrchus i ddau deulu amaethyddol o Ddyffryn Conwy. Maent wedi cyfuno dau fusnes fferm i'w rhedeg fel un busnes laeth modern iawn. Mae'r ffermwr ifanc Emyr Owen (30) o Bodrach, ger Pandy Tudur, sy'n ffermio mewn partneriaeth â'i rieni ar fferm 185 erw oedd yn magu gwartheg biff a defaid yn y gorffennol a'i gymydog agosaf, Gwydion Jones (38), yr oedd ei deulu yn arfer ffermio 150 o wartheg godro ar fferm 95 erw, Ty'n Ffynnon, wedi ymuno mewn partneriaeth fusnes ar y cyd. Gwerthodd teulu Emyr eu holl wartheg biff a'u defaid er mwyn prynu heffrod laeth a chanolbwyntio yn llwyr ar y fenter laeth newydd. I Gwydion a'i deulu, roedd hwn yn gyfle i gynyddu maint eu buches Seland Newydd wreiddiol oedd yn lloea yn y gwanwyn o 150 trwy brynu 300 o heffrod laeth newydd sydd yn awr yn eiddo i'r ddau deulu yn gyfartal.

#### Cyfle i rywun sy'n rhannu meddylfryd ffermio dau frawd i fod yn ffermwr cyfran gyda nhw

Mae dau frawd yn ceisio datblygu'r llwyddiant y maent eisoes wedi'i gael gyda'u busnes ffermio laeth ar raddfa fawr; trwy gynnig cyfle i ffermwr cyfran ymuno â nhw. Mae Alun a Paul Price yn cadw buches o 800 o wartheg Friesian Holstein a'u lloia ar Fferm 240 hectar Gelliargwellt ger Nelson. Mae sylw i fanylder yn ganolog i'w dull o ffermio – maen nhw wedi gosod parlwr odro rotary 64 pwynt yn ddiweddar ac mae iechyd a ffrwythlondeb y gwartheg yn y cael eu monitro gyda thagiâu clust.

Ond mae rheoli pob rhan o'r busnes i safon mor uchel yn dod yn fwy heriol gan fod y ddau bellach yn eu chwedegau, felly er mwyn cynnal y safon ac arwain y busnes yn ei flaen, maen nhw'n awyddus i sefydlu trefniant ffermio cyfran. "Roeddem wedi darllen am llwyddiant ffermwyr eraill gyda chynllun Mentro, ac roeddem yn credu y gallai hwn helpu ein sefyllfa ni," dywedodd Paul. Hoffent ail-greu llwyddiant y mentrau ffermio cyfran ar eu fferm nhw trwy gynnig cytundeb i ddarpar ffermwr laeth.

Mae'r cyfle hwn ar gael o hyd.

#### Cyfle i ffermwyr ifanc ddilyn ôl troed cynhyrchwr laeth sydd wedi cychwyn menter o ddim

Mae ffermwr ifanc y gwnaeth ei ddatblygiad trawiadol ym maes godro ei symud o fod yn berchen ar yr un fuwch i fod â 1,300 mewn dim ond 11 mlynedd yn creu cyfle i weithiwr fferm i gynyddu ei ecwiti yn y diwydiant. Magwyd Matthew Jackson mewn dinas ond roedd ganddo'r uchelgais y byddai'n godro ei fuchod ei hun rhyw ddydd.

Nid yn unig mae wedi cyflawni hynny ond mae'n awr yn berchen ar 150 hectar o dir yng ngorllewin Cymru. Gyda chymorth rhaglen Mentro Cyswllt Ffermio, mae'n awr yn cynllunio i helpu unigolyn arall i gael troedle yn y diwydiant, gyda swydd a allai arwain at gytundeb rhannu elw. "Rwy'n chwilio am unigolyn brwd, y trydydd person i weithio rhwng ein dwy fferm, a fydd yn gallu datblygu ei sgiliau ac yr wyf yn awyddus iawn i roi mwy o gyfrifoldeb iddoliddi ar ôl cyfnod o amser trwy edrych ar ddewisiadau gwahanol fel perfformiad a threfniadau rhannu elw," esboniodd Matthew.

Mae'r cyfle hwn ar gael o hyd.

